Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (03/2016)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru
Canolfannau dysgu sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (FE)
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
UCAS
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
UCM Cymru
Comisiynydd Plant Cymru

Gorffennaf 2016

Annwyl Gyfaill

CYNLLUNIAU'R LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG A GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (ADDYSG BELLACH) AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2016/17

Mae'r Nodyn Gwybodaeth hwn yn darparu manylion y cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (WGLG (AB)) ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a/neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru – e-bost cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk. Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill, a gellir lawrlwytho copi o'r Nodyn Gwybodaeth hwn yn Gymraeg neu Saesneg.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

E-bost/ E-mail:
cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk
studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk

(i) Llofnodion electronig

Gwnaed newid technegol i'r cynlluniau LCA a WGLG (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 er mwyn gallu defnyddio llofnod electronig ar gytundebau dysgu. Mae hyn yn cydnabod gwaith Coleg Gŵyr Abertawe ac yn ffordd o gefnogi canolfannau dysgu sy'n dymuno defnyddio systemau effeithiol ac effeithlon newydd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol.

Mae cytundebau dysgu yn sail i'r cynlluniau LCA a WGLG (AB). Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i ganolfannau dysgu (h.y. ysgolion a cholegau) gadw copïau papur o gytundebau dysgu gyda'r llofnodion gwreiddiol arnynt. Yn sgil mwy o alw am wasanaethau digidol effeithiol, mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi bod yn gweithredu prosiect peilot dros gyfnod o ddwy flwyddyn academaidd lle mae wedi addasu eu llwyfan digidol er mwyn gallu defnyddio llofnod electronig ar gyfer cytundebau dysgu electronig (ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (AB). Gwnaeth y coleg hefyd ofyn am gyngor annibynnol gan Jisc, sef sefydliad dielw sectorau addysg uwch/addysg bellach y DU ar gyfer gwasanaethau ac atebion digidol.

Os yw canolfannau dysgu'n dymuno defnyddio llofnodion electronig (fel Coleg Gŵyr Abertawe), dylent gyfeirio at Nodiadau Canllaw a Chanllawiau Twyll Canolfannau Dysgu 2016/17 y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), a fydd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newid technegol hwn. Mae'n bwysig bod y canolfannau dysgu'n darllen y dogfennau hyn.

Bydd y canolfannau dysgu'n gyfrifol am sicrhau bod eu systemau ar gael i fyfyrwyr ac yn cael eu cefnogi gan systemau a safonau diogelwch cadarn. Dylai'r canolfannau nad ydynt am ddefnyddio llofnodion electronig barhau i gadw copïau caled o'r cytundebau dysgu gyda'r llofnodion gwreiddiol.

(ii) Ffurflenni Templed ar gyfer Cytundebau Dysgu/Grant Dysgu

Cadarnhaodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ei Seminarau Addysg Bellach blynyddol (a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2016) ar gyfer cynrychiolwyr o'r canolfannau dysgu, y byddai ffurflenni templed gorfodol newydd ar gyfer cytundebau dysgu/grant dysgu yn cael eu dosbarthu yn yr haf i ganolfannau dysgu a fydd yn gweinyddu'r cynlluniau ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

Yn dilyn adborth cryf gan y canolfannau dysgu a myfyrwyr, bydd rhai newidiadau gweinyddol yn cael eu gwneud i'r ffurflenni templed gorfodol newydd, fel a ganlyn:

Enw newydd

Teitl y ffurflen templed ar gyfer cytundeb unigol fydd:

- EMA Agreement (Cytundeb LCA) a
- WGLG (FE) Agreement (Cytundeb WGLG (AB)

Ni fydd y newidiadau hyn yn newid diben y cytundeb dysgu ond dylai helpu i roi mwy o eglurder i fyfyrwyr a chanolfannau dysgu.

Ffurflen templed amgen ar gyfer cytundeb dysgu (llofnod Person Enwebedig)

Mewn rhai amgylchiadau bydd myfyriwr (e.e. myfyriwr ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol) angen person enwebedig (Trydydd Person) fel rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr i lofnodi'r cytundeb perthnasol ar ei ran am fod y person hwnnw'n gyfrifol am ei faterion gweinyddol a/neu ariannol. Mewn achosion o'r fath, mae'r person enwebedig yn llofnodi'r adran berthnasol neu mae'r canolfan ddysgu wedi addasu'r templed o'r cytundeb i gynnwys adran lofnodi ar wahân.

Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn darparu ffurflen templed amgen ar gyfer cytundeb dysgu (ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (AB) y bydd modd i berson enwebedig ei lofnodi ar ran y myfyriwr cymwys. Dylid ond defnyddio'r templed hwn yn yr amgylchiadau priodol a bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ei ddarparu.

Nod y newidiadau uchod yw sicrhau cysondeb, helpu i wahaniaethu rhwng cytundebau LCA/WGLG (AB) a chytundebau'r canolfannau dysgu eu hunain, a thanlinellu pwysigrwydd cytundebau LCA/WGLG (AB).

Bydd Nodiadau Canllaw Canolfannau Dysgu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol uchod.

(iii) (i) Gwirio Incwm y Cartref yn Electronig

Roedd SFWIN (02/2015)[1] yn egluro y byddai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn moderneiddio ei wasanaethau ac y byddai system asesu electronig yn cael ei chyflwyno o flwyddyn academaidd 2015/16. Golyga hyn fod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cwblhau asesiadau electronig o incwm y cartref ar gyfer ymgeiswyr newydd (a'u noddwyr) o dan gytundeb rhannu data gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

Mae'r canlynol yn rhoi amlinelliad byr o sut mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn bwriadu gweinyddu myfyrwyr cymwys sy'n dychwelyd fel rhan o'u hasesiadau electronig o incwm y cartref ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

LCA a WGLG (AB) - wedi dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2015

Bydd myfyrwyr sy'n dychwelyd yn destun asesiad electronig fel rhan o broses gwirio sampl y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ddilysu incwm y cartref. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ysgrifennu at ddetholiad o fyfyrwyr sy'n dychwelyd a bydd angen i'r myfyrwyr lenwi ffurflen asesu ariannol gan nodi'r incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (h.y. 2014-15). Bydd hyn yn golygu na fydd angen i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth bapur o incwm y cartref.

[1] http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/9312/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-02-2015-.pdf

LCA a WGLG (AB) - wedi dechrau cwrs cyn 1 Medi 2015

Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn parhau i wirio sampl o fyfyrwyr sy'n dychwelyd er mwyn dilysu incwm y cartref, ac yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth ar bapur o incwm eu cartref am y flwyddyn ariannol flaenorol (2015-16).

Os yw myfyriwr sy'n dychwelyd yn dechrau cwrs newydd/gwahanol ym mlwyddyn ariannol 2016/17 neu fod ei statws personol yn newid (e.e. newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol) gallai'r ymgeisydd fod yn destun asesiad electronig. Os yw newid o'r fath yn digwydd, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr i egluro'r broses.

(iv) Rhaglen ailsefydlu pobl agored i niwed o Syria

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i chwarae rhan yn y broses o ailsefydlu ffoaduriaid o Syria drwy'r rhaglen hon.

Ymgorfforwyd newid technegol i'r cynlluniau LCA a WGLG (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 i egluro y gallai person (neu aelod o deulu person) sy'n cael amddiffyniad dyngarol o dan y rhaglen uchod, ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, fod yn gymwys i wneud cais ar gyfer cymorth ariannol drwy'r cynlluniau LCA neu WGLG (AB), ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd eraill.

(v) Cyllid Myfyrwyr Cymru - Gweinyddu

Caiff ceisiadau ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (AB) eu gweinyddu gan Gyllid Myfyrwyr Cymru sy'n wasanaeth a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ddarparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n ymuno â'r sector addysg bellach neu uwch yn y DU. Mae gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael eu darparu'n ddwyieithog dros y ffôn ar 0300 200 450 neu ar y we yn www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r canolfannau dysgu a rhanddeiliaid hysbysu myfyrwyr drwy eu sianelu cyfathrebu arferol bod Cyllid Myfyrwyr Cymru'n darparu gwasanaeth dwyieithog a bod y ffurflenni cais a'r canllawiau i fyfyrwyr a rhieni ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (AB) ar gael yn Gymraeg. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni drwy'r dolenni uchod.